RHIFYN I 2009

SALTcymru // NEWYDDION

TECHNOLEGAU IAITH A LLEFERYDD || SPEECH AND LANGUAGE TECHNOLOGIES

LANSIO CYLCH DIDORDEB ARBENNIG SALT CYMRU

Rod Webster (WEFO), Gruffudd Prys (Uned Technolegau Iaith), Ieuan Wyn Jones AC, Dewi Bryn Jones (UTI), Delyth Prys (UTI), Sian Hope (Prifysgol Bangor), Llion Jones (Canolfan Bedwyr)

Lansiwyd y Cylch Diddordeb Arbennig SALT (Speech and Language Technologies Cymru) yn swyddogol ar Fawrth yr 20fed gan Ieuan Wyn Jones, Y Dirprwy Brif Weinidiog a'r Gweinidog dros Economi a Thrafnidiaeth. Mae'r cylch yn gweithredu fel llwyfan i ddod â'r carfannau yn Academia a Diwydiant Cymru sy'n rhannu diddordeb mewn defnyddio a datblygu Technolegau Iaith a Lleferydd (SALT) ynghyd.

Wrth annerch cynulleidfa o fusnesau Cymreig ac Academyddion, dywedodd Ieuan Wyn Jones "gall economi Cymru elwa'n fawr o'r project hwn drwy gymhwyso'r gwersi a ddysgwyd yng nghyd-destun dwyieithog Cymru i'r sefyllfa amlieithog fyd-eang."

UCHAFBWYNTIAU'R LANSIO

Cyflwynodd **Dr Oggy East** (chwith) waith Semantise, cwmni sy'n arbenigo mewn rheoli data cyrff addysgiadol mewn modd effeithlon. Disgrifiodd sut yr oedd KTP mewn cydweithrediad â Uned Technolegau Iaith Prifysgol Bangor (UTI) wedi caniatáu i'r cwmni dderbyn cyllid tuag at gyflogi unigolyn graddedig i deilwra eu cynnyrch i'r farchnad yng Nghymru, gan baratoi'r ffordd ar gyfer cefnogi amlieithrwydd o fewn eu meddalwedd er mwyn eu galluogi i allforio'u cynnyrch i farchnadoedd rhyngwladol.

>> www.semantise.com

Dr Richard Sheppard (chwith) yw prif weithredwr Draig Technologies, cwmni sy'n darparu gwasanaethau meddalwedd yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys datrysiadau Sharepoint a meddalwedd amlieithog. Cydweithiodd gyda'r UTI ar y Canllawiau Meddalwedd Dwyieithog ar gyfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg, gan weithio hefyd ar fersiynau Cymraeg o gynnyrch Microsoft, a rhannodd o'i brofiadau o ddatblygu meddalwedd amlieithog, gan amlinellu rhai o'r heriau a wynebir wrth farchnata meddalwedd o'r fath yng Nghymru.

>> www.draig.co.uk

Oeddech chi'n gwybod? Yn 2007 cydnabuwyd Prifysgol Bangor fel un o'r goreuon yn y Deyrnas Unedig am feithrin partneriaethau llwyddiannus â busnes yng ngwobrwyon y KTP Awards 07.

// SEMINAR MEHEFIN

Ymarfer Gorau mewn Dulliau Dewis Iaith ar gyfer Gwefannau Dwyieithog Cymru

IWAN STANDLEY (BBC)
GRUFFUDD PRYS (LTU)

2pm, Mehefin 12, Canolfan Rheolaeth Busnes Prifysgol Bangor

BETH YW KTP?

Partneriaethau rhwng sefydliadau academaidd a busnesau yw Knowledge Transfer Partnerships. Mae cwmnïau'n elwa o wasanaeth wedi'i rannol gyllido gan gysylltai sy'n cyflawni project penodol i'r cwmni dan arolygaeth goruchwyliwr academaidd.

Gwefan: www.saltcymru.org | **E-bost:** info@saltcymru.org | **Ffôn:** (01248) 383559

PROJECT UNED TECHNOLEGAU IAITH PRIFYSGOL BANGOR. ARIANNWYD GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU A'R ERDF